# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Hydref 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)392 - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023**

(Tudalennau 1 - 2)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 SL(6)390 – Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023**

(Tudalennau 3 – 6)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 – Papur 2 – Adroddiad

LJC(6)-29-23 – Papur 3 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 – 13.45)

**4.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru**

(Tudalen 7)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 – Papur 4 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 17 Hydref 2023

**4.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023**

(Tudalennau 8 – 10)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, 18 Hydref 2023

LJC(6)-29-23 – Papur 6 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 18 Hydref 2023

## 5 Papurau i’w nodi

(13.45 – 13.50)

**5.1 Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE: Adroddiad cryno o’r trydydd cyfarfod**

(Tudalennau 11 – 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 – Papur 7 – Adroddiad cryno

LJC(6)-29-23 – Papur 8 – Llythyr ar y cyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Luke Fletcher AS at Brif Weinidog Cymru, 18 Hydref 2023

5.2 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Confensiwn ar Gyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol rhwng y DU, Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ**

(Tudalennau 22 – 25)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 – Papur 9 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 16 Hydref 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-29-23 – Papur 10 – Llythyr at Brif Weinidog Cymru, 29 Medi 2023

5.3 **Gohebiaeth gan y Sefydliad Llywodraeth a Sefydliad Bennett ar gyfer Polisi Cyhoeddus: Adolygiad o Gyfansoddiad y DU**

(Tudalen 26)

Adolygiad o Gyfansoddiad y DU: Yr adroddiad terfynol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Sefydliad Llywodraeth a Sefydliad Bennett ar gyfer Polisi Cyhoeddus, 17 Hydref 2023 [Saesneg yn unig]

5.4 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2023**

(Tudalen 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 17 Hydref 2023

5.5 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**

(Tudalennau 28 – 34)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 – Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 17 Hydref 2023 [Saesneg yn unig]

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.50)

## 7 Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023: Trafod y gohebiaeth

(13.50 - 14.05) (Tudalennau 35 - 44)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 - Papur 14 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Hydref 2023

LJC(6)-29-23 - Papur 15 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Hydref 2023

LJC(6)-29-23 - Papur 16 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Medi 2023

## 8 Blaenraglen Waith

(14.05 - 14.15) (To Follow)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 - Papur 17 - Papur Blaenraglen Waith [Saesneg yn unig]

## 9 Adroddiad Blynyddol

(14.15 - 14.25) (To Follow)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-29-23 - Papur 18 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# SL(6)392 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023

## Cefndir a diben

Nod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (Rheoliadau 2021) yw mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi llygredd dŵr sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol ledled Cymru.

Mae Rheoliadau 2021 yn gosod terfynau ar ddodi tail organig: mae rheoliad 4 o Reoliadau 2021 yn cyfyngu cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw y caniateir ei ddodi ar ddaliad (boed yn uniongyrchol gan anifail neu drwy daenu) i 170kg wedi'i luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

Ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau, roedd rheoliad 4 yn ddarostyngedig i gyfnod trosiannol. Ar gyfer daliadau o'r fath, y bwriad gwreiddiol oedd y byddai rheoliad 4 yn gymwys o **30 Ebrill 2023**. Ym mis Ebrill 2023, newidiwyd y dyddiad hwnnw i **31 Hydref 2023**. Nawr, mae'r Rheoliadau hyn yn newid y dyddiad hwnnw eto, gan estyn y cyfnod trosiannol am 2 fis arall fel y bydd rhaid i ddaliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau gydymffurfio â'r terfyn 170kg o **1 Ionawr 2024**.

Oherwydd bod y dyddiadau wedi newid, mae'r gofynion cysylltiedig o ran cadw cofnodion yn rheoliad 36 o Reoliadau 2021 hefyd wedi eu diwygio.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn newid cymhwysiad y terfyn 170kg i ddaliadau a oedd gynt mewn parth perygl nitradau.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn**

Yn rheoliad 2(3)(a), mae gwahaniaeth bach rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg a allai o bosibl arwain at eu dehongli’n wahanol. Yn y testun Saesneg, mae’r testun newydd yn dweud “any year beginning 1 January”, ond mae’r cyfieithiad yn dweud “unrhyw flwyddyn sy’n dechrau ar 1 Ionawr”. Yn y Nodyn Esboniadol, nodir yn y ddwy iaith fod rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 4 fel bod terfyn uchaf y nitrogen mewn tail da byw yn gymwys i bob cyfnod o 12 mis “sy’n dechrau â 1 Ionawr”.

Mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn argymell osgoi defnyddio “ar” wrth ddisgrifio dechrau neu ddiwedd cyfnodau amser – gweler Drafftio Deddfau i Gymru 8.3 ac 8.4. Mae hyn oherwydd y gall defnyddio “ar” beri amheuaeth ynghylch a fydd y cyfnod yn dechrau neu'n gorffen ar amser penodol ar y diwrnod hwnnw. Mae’r canllawiau drafftio yn argymell defnyddio “â” er eglurder ac er mwyn osgoi unrhyw amwysedd.

Fodd bynnag, nodwn fod y gwahaniaeth hwn rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg wrth ddisgrifio dechrau a diwedd cyfnodau eisoes yn bodoli yn nhestun dwyieithog Rheoliadau 2021 mewn rhai mannau.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**18 Hydref 2023**

# SL(6)390 – Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023

## Cefndir a diben

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn gwahardd cyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol i ddefnyddwyr yng Nghymru, oni bai bod esemptiad. Mae'r cynhyrchion penodol a'r esemptiadau perthnasol yn cael eu nodi yn y Tabl yn yr Atodlen i'r Ddeddf.

Daeth adrannau 3, 4, 17, 21, 22 a 23 o'r Ddeddf i rym ar 7 Mehefin 2023, sef y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.

Mae Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023 ("y Gorchymyn") yn dwyn i rym holl ddarpariaethau eraill y Ddeddf, ac eithrio tri chofnod yn y Tabl o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig.

O ganlyniad, o 30 Hydref 2023, bydd yn drosedd i gorff corfforaethol, partneriaeth, cymdeithas anghorfforedig neu berson sy'n gweithredu fel unig fasnachwr, gyflenwi, neu gynnig cyflenwi, y cynhyrchion plastig untro canlynol i ddefnyddiwr yng Nghymru, oni bai bod esemptiad:

- cwpanau,
- cytleri;
- troyddion diodydd,
- gwellt,
- platiau,
- cynhwysyddion cludfwyd,
- ffyn balwnau, a
- ffyn cotwm.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn unol ag adran 21(3) o'r Ddeddf, mae'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae'n anarferol iawn i orchymyn cychwyn fod yn ddarostyngedig i'r lefel hon o graffu yn y Senedd; nid yw mwyafrif y gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu yn y Senedd.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ôl paragraff 4.4 o'r Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r gwaharddiad ar y cynhyrchion plastig untro penodol fesul cam.

Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym wyth o'r 11 cofnod yn y Tabl o gynhyrchion gwaharddedig yn yr Atodlen i'r Ddeddf. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

- pam nad yw'r gwaharddiadau sy'n ymwneud â chaeadau ar gyfer cwpanau neu gynwysyddion cludfwyd, bagiau siopa a chynhyrchion a wnaed o blastig ocso-ddiraddiadwy yn cael eu cychwyn ar yr adeg hon,
- pryd y bydd gweddill y cofnodion yn y Tabl yn cael eu cychwyn, a
- sawl cam arall sydd yn yr arfaeth i ddwyn y gwaharddiadau sy'n weddill i rym?

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ("UKIMA") yn cynnwys egwyddorion mynediad i'r farchnad sydd, yn fras, yn sicrhau bod nwyddau y gellir eu gwerthu'n gyfreithlon mewn un rhan o'r DU hefyd yn gallu cael eu gwerthu yn rhywle arall yn y DU, heb unrhyw ofynion perthnasol a fyddai fel arall yn gymwys i werthu'r nwyddau hynny yn y rhan arall honno o'r DU. Mae paragraff 13 o Atodlen 1 i UKIMA yn darparu nad yw'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn gymwys i ddeddfwriaeth i'r graddau y mae'n gwahardd gwerthu rhai eitemau plastig untro penodol.

Nodir bod y cynhyrchion a restrir yn y cofnodion yn y Tabl a ddygwyd i rym gan y Gorchymyn yr un fath â'r eitemau sydd wedi'u heithrio o egwyddorion mynediad i'r farchnad yn UKIMA gan baragraff 13 o Atodlen 1 i UKIMA.

Nid yw'r cynhyrchion a restrir yn y tri chofnod yn y Tabl nad ydynt yn cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn – caeadau ar gyfer cwpanau neu gynwysyddion cludfwyd, bagiau siopa a chynhyrchion a wnaed o blastig ocso-ddiraddadwy – wedi'u cynnwys ym mharagraff 13 o

Atodlen 1 i UKIMA ac felly mae'n ymddangos nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr eithriad o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad.

Yn ystod hynt y Bil a ddaeth yn Ddeddf, cododd y Pwyllgor hwn bryderon ynghylch effaith egwyddorion mynediad i'r farchnad yn UKIMA ar effeithiolrwydd y darpariaethau yn y Bil. Gofynnir i Lywodraeth Cymru a yw'n parhau i fod o'r farn y bydd y Ddeddf yn "*gwbl effeithiol ac yn orfodadwy*"[1] pan gaiff ei chychwyn yn llawn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail a'r trydydd pwynt adrodd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

[1] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2022

**Ymateb y Llywodraeth:** Gorchymyn Deddf Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2**:

Yn ystod hynt Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ("y Bil") drwy'r Senedd, pwysleisiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y byddai'r gwaharddiad ar gynhyrchion plastig untro yn cael ei weithredu mewn dau gam. Byddai'r cam cyntaf yn cynnwys cynhyrchion plastig untro a oedd wedi bod yn destun ymgynghoriad yn 2020 a chamau deddfwriaethol ar lefel y DU a'r Undeb Ewropeaidd.

Byddai'r ail gam a'r cam olaf yn cynnwys cynhyrchion nad ydynt wedi'u gwahardd mewn mannau eraill yn y DU (bagiau siopa plastig untro, caeadau polystyren ar gyfer cwpanau a chynwysyddion cludfwyd a chynhyrchion wedi'u gwneud o blastigau ocso-ddiraddadwy). Bwriad y dull graddol hwn yw rhoi amser ychwanegol i fusnesau symud i ffwrdd oddi wrth y cynhyrchion hyn a chael gafael ar rai amgen. Bydd hefyd yn caniatáu i welliannau gael eu gwneud i Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010. Nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd hefyd fod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i dystiolaeth wyddonol sy'n dod i'r amlwg ar effeithiau amgylcheddol plastigau ocso-ddiraddadwy/ocso-fioddiraddadwy.

Mae manylion yr amserlen ar gyfer dechrau'r ail gam yn dal i gael eu cwblhau, ond mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi ymrwymo i ddechrau gwahardd y cynhyrchion sy'n weddill cyn diwedd tymor y Senedd hon (Mawrth 2026).

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3**:

Fel y nodwyd drwy gydol hynt y Bil yn y Senedd, safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd yw, pan fo'r Senedd yn deddfu mewn meysydd nas cedwir yn ôl, ei bod yn gwneud hynny'n rhydd o ofynion Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Mae hyn yn golygu y bydd y gwaharddiadau a ddarperir yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 yn gwbl effeithiol a gorfodadwy waeth beth fo'r sefyllfaoedd o ran rheoleiddio mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 4.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/350/2023
Ein cyf/Our ref DC/CG/00060/23

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

18 fed Hydref 2023

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu y byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru ar 25 Hydref 2023. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ran Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Llywodraethau'r Alban a'r DU. Mae trafodaeth bellach yn debygol o ganolbwyntio ar bleidleisio absennol ar-lein, a rheoli gwahaniaeth a lliniaru risgiau.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhithiol ac, ar yr achlysur hwn, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal gan Lywodraeth yr Alban. Hefyd yn bresennol, bydd George Adam MSP, Aelod o Senedd yr Alban, y Gweinidog dros Fusnes Seneddol yn Llywodraeth yr Alban, Steve Baker MP, y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon Llywodraeth y DU, a Barwnes Scott o Bybrook OBE, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU.

Ysgrifennaf atoch eto ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

18 Hydref 2023

Annwyl Gadeirydd,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydlu) (Dirymu) 2023.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan bwerau a wneir gan ddefnyddio pwerau yn Rheoliad a Ddargedwir (EU) 2017/625 – y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Pwrpas y Rheoliadau yw dirymu'r cyfyngiadau a osodir ar rai sefydliadau bwyd Brasil. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliadau bwyd ym Mrasil a gyfyngwyd arnynt yn flaenorol i gael eu hychwanegu at y rhestr o sefydliadau a gymeradwywyd i allforio i Brydain Fawr, ar ôl cyflwyno rhestr wedi'i diweddaru o'r sefydliadau a gymeradwywyd gan awdurdodau cymwys Brasil.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod, a chydgysylltiad a chysondeb trawslywodraethol.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 18 Hydref 2023 o dan y weithdrefn negyddol a byddant yn dod i rym ar 08 Tachwedd 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023** |
| **DYDDIAD** | **18 Hydref 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gosodwyd yr Offeryn Statudol (OS) uchod gerbron Senedd y DU gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 18 Hydref 2023 drwy arfer y pwerau a roddwyd gan erthygl 126(1) o reoliad (EU) 2017/635 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill.

Mae'r rheoliadau hyn yn dirymu cyfyngiadau a osodwyd ar rai sefydliadau bwyd Brasil. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau bwyd Brasil y cyfyngwyd arnynt yn flaenorol i gael eu hychwanegu at y rhestr o sefydliadau a gymeradwywyd i allforio i Brydain Fawr, ar ôl i restr wedi'i diweddaru o'r sefydliadau a gymeradwywyd gan awdurdodau cymwys Brasil gael ei chyflwyno.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:**

Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, diwygio nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod o ran newid polisi yn y dyfodol, cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltiad trawslywodraethol a chysondeb.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 18 Hydref a byddant yn dod i rym ar 8 Tachwedd 2023.

Senedd Cymru

Eitem 5.1

# Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE: Adroddiad cryno ar y trydydd cyfarfod

Hydref 2023

Mae Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE yn gorff ffurfiol a sefydlwyd o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu’r DU a’r UE. Mae’n chwarae rôl bwysig o ran goruchwylio gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a phob cytundeb arall rhwng y DU a’r UE yn y dyfodol.

Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym Mrwsel ar 3-4 Gorffennaf. Mae’r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o’r materion a drafodwyd sydd o bwys i Gymru. Gwnaeth yr adroddiad cryno ar gyfarfod blaenorol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bum argymhelliad ynghylch datblygu’r modd y mae’r Senedd yn ymgysylltu â’r corff hwnnw. Mae'r adroddiad hwn yn trafod y cynnydd a wnaed o ran gweithredu’r argymhellion hynny rhwng yr ail a'r trydydd cyfarfod.

Yn cymryd rhan yn y trydydd cyfarfod oedd Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad; a Luke Fletcher AS, aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Yn rhinwedd hynny, felly, maent wedi cytuno ar yr adroddiad.

# Cynnwys

**1. Materion sydd o bwys i'r Senedd ac i Gymru............................... 2**

"Taflwybr mwy cadarnhaol" ........................................................................ 3

Arwyddion o gydweithio pellach ................................................................ 3

Sicrhau cyflenwadau ynni ..................................................................... 3

Galwad am arweinyddiaeth fyd-eang ar gydweithio ynghylch yr hinsawdd ........................................................................................... 4

Mynediad at raglen Horizon ................................................................. 4

Awydd cyffredin i wella symudedd ........................................................ 4

Cynnwys lleisiau dinasyddion drwy gydweithio yn y gymdeithas sifil ..... 5

Posibiliadau ehangach o ran cydweithio ar bolisïau gwyrdd ym maes diwydiant a masnach? .................................................................................. 6

"Condemni'n ddiwyro y rhyfel ymosodol digymell ac anghyfiawn yn erbyn Wcráin" ..................................................................................................... 6

**2. Cyfranogiad y Senedd yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol............................................................................................... 7**

# 1. Materion sydd o bwys i'r Senedd ac i Gymru

Mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE yn cwmpasu meysydd pwysig sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu sy'n cael effaith sylweddol arnynt. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y rhain, sut y maent yn effeithio ar Gymru, a rôl y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn y canllawiau a'r ffeithluniau a luniwyd gan Ymchwil y Senedd mewn perthynas â'r cytundeb.

Mewn arwydd bod y cytundeb ar Fframwaith Windsor wedi newid naws ac awyrgylch y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ynghyd â'r awydd am gydweithio pellach o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, roedd yr agenda a'r trafodaethau'n ymdrin â meysydd lle gallai cydweithio pellach fod yn bosibl yn y

dyfodol a lle mae gan y ddwy ochr ddiddordeb cyffredin mewn cydweithio pellach.

Gallwch wylio’r trafodion yn llawn ar wefan dirprwyaeth y DU i Senedd Ewrop.

## “Taflwybr mwy cadarnhaol”

Mae gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon a thelerau Fframwaith Windsor yn fater o bwys i borthladdoedd, busnesau a dinasyddion Cymru. Yn y Senedd, mae’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn monitro’n ofalus effaith y broses o weithredu’r protocol ar Gymru.

Dywedodd Maroš Šefčovič, Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, fod y cam o gytuno ar Fframwaith Windsor wedi sicrhau bod y cysylltiadau rhwng y DU a’r UE ar “daflwybr mwy cadarnhaol”. Croesawodd James Cleverly, Ysgrifennydd Tramor y DU, y broses o feithrin ymddiriedaeth, hyder a dealltwriaeth rhwng y ddwy ochr. Roedd yr awyrgylch mwy cydweithredol yn werth ei nodi ac i’w groesawu’n fawr.

Pwysleisiodd yr Is-lywydd Šefčovič fod angen parhau â'r gwaith o weithredu Fframwaith Windsor, a hynny ar frys. Bydd y modd y caiff materion sy’n ymwneud â gweithredu eu datrys o ddiddordeb mawr i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi awgrymu ei bod yn bwriadu cydsynio i reoliadau sy’n gweithredu’r Fframwaith mewn meysydd datganoledig.

## Arwyddion o gydweithio pellach

Tynnodd y ddwy ochr sylw at y ffaith bod y DU a’r UE wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wasanaethau Ariannol, gan nodi bod hyn yn dangos bod modd cytuno ar gydweithio pellach.

### Sicrhau cyflenwadau ynni

Mewn ymateb i'r argymhelliad ar y cyd ar gydweithio ym maes ynni a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn ystod ei ail gyfarfod, nododd y Cyngor Partneriaeth fod y DU a’r UE wedi cytuno i drafod yn rheolaidd materion sy’n ymwneud â diogelwch cyflenwadau. Nododd hefyd fod y DU wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chomisiwn Ynni Môr y Gogledd, sy’n cynnwys cydweithio ar brosiectau hybrid a phrosiectau ar y cyd, cynllunio gofodol morol, ariannu prosiectau ynni adnewyddadwy a chyfnewid arfer gorau. Yn y deunydd briffio a ddarparwyd gennym ymlaen llaw i ddirprwyaeth y DU, gwnaethom bwysleisio pwysigrwydd cydweithio ym Môr Iwerddon a’r Môr

Celtaidd mewn perthynas â phrosiectau ynni adnewyddadwy a phrosiectau rhyng-gysylltwyr yng Nghymru, a'r gobaith y gellir parhau i gryfhau cydweithio yn y meysydd hyn mewn ffyrdd tebyg i'r cydweithio sy'n digwydd ym Môr y Gogledd.

## Galwad am arweinyddiaeth fyd-eang ar gydweithio ynghylch yr hinsawdd

Gwnaeth y grŵp llai ar ynni a'r hinsawdd dynnu sylw at y potensial enfawr ar gyfer cydweithio rhwng yr UE a'r DU ynghylch cyflawni targedau sero net, datgarboneiddio a diwygio marchnadoedd trydan. Galwodd am gydweithio ar y broses o ddatblygu mecanweithiau i addasu ffiniau carbon a chreu pwyllgor arbenigol ar sero net o dan strwythur llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Gwnaeth y grŵp llai ddarparu llwyfan ar gyfer trafod gwaith pwyllgorau'r Senedd ar uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sero net, a'r polisïau a'r ddeddfwriaeth sydd ar waith yng Nghymru gyda'r nod o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

## Derbyn i raglen Horizon

Roedd derbyn y DU i raglen ymchwil Horizon yn bwnc amlwg iawn a gododd mewn nifer o sesiynau a grwpiau llai. Galwodd aelodau o bob rhan o'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar Lywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i ddod â thrafodaethau i ben a sicrhau cytundeb cyn gynted â phosibl.

Yn ystod sesiynau'r grwpiau llai ac yn ein deunydd briffio i ddirprwyaeth y DU, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith ei bod yn bwysig i'r sector ymchwil, arloesi ac addysg uwch yng Nghymru sicrhau mynediad cyflym i raglen ymchwil Horizon. Gwnaethom bwysleisio'r ffaith y dylid cynnwys unrhyw waith dadansoddi a wnaed gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â gwerth am arian wrth ystyried ffactorau fel ansawdd partneriaethau a chanlyniadau ymchwil.

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad dilynol ar gysylltiad y DU â Horizon.

## Awydd cyffredin i wella symudedd

Mae gallu dinasyddion y DU a dinasyddion yr UE i symud rhwng y DU a'r UE at ddibenion astudio, gweithio ac ymgymryd â gweithgarwch hamdden yn parhau i fod yn ffocws allweddol i aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Gwnaeth y grŵp llai ar symudedd dynnu sylw unwaith eto at y materion parhaus y mae sector y celfyddydau a diwylliant yn eu hwynebu o ran teithio. Roeddem

yn gallu tynnu sylw at dystiolaeth a gasglwyd ar y mater hwn gan bwyllgor diwylliant y Senedd fel rhan o’i ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gan fod problemau'n parhau i ddod i’r amlwg er gwaethaf yr Ardal Deithio Gyffredin. Gwnaeth y grŵp ailadrodd yr argymhelliad a wnaed yn flaenorol i Gyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sef y dylai’r UE a’r DU negodi cytundeb cynhwysfawr i ganiatáu i artistiaid deithio a gweithio yn yr UE a’r DU.

Mae aelodau’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn parhau i bryderu am y ffaith bod llai o gyfleoedd ar gael, ac am y rhwystrau sy’n bodoli o ran symudedd a lefelau ymgysylltu pobl ifanc. Gwnaethom dynnu sylw at waith rhaglen cyfnewid dysgu Llywodraeth Cymru, sef rhaglen Taith, a'i helfennau cyfatebol. Gwnaeth y grŵp llai annog y Cyngor Partneriaeth i hwyluso symudedd ymhlith plant ysgol drwy ddefnyddio cardiau adnabod a thrwyddedau grŵp.

Mae materion parhaus ynghylch statws preswylwyr sefydlog a statws preswylwyr cyn sefydlu ar gyfer dinasyddion yr UE sy’n dymuno aros yn y DU yn parhau i beri pryder. Mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn monitro’r mater hwn yng Nghymru.

## Cynnwys lleisiau dinasyddion drwy gydweithio yn y gymdeithas sifil

Nododd aelodau’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol fod rhaglen Horizon a symudedd ymhlith pobl ifanc yn elfennau allweddol o wella cydweithio yn y gymdeithas sifil. Pwysleisiwyd y ffaith bod y dasg o ddatrys y materion hyn yn fater o bwysigrwydd cyffredin i aelodau o'r ddwy ochr.

Mae ymgysylltu pellach rhwng y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a chymdeithas sifil, a’r ddeialog ynghylch y berthynas rhwng y DU a’r UE, yn fater y mae aelodau’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn awyddus i’w archwilio. Mae’r Senedd a sefydliadau eraill yng Nghymru wedi bod yn weithgar o ran cefnogi gweithgarwch ymgysylltu rhwng cymdeithas sifil Cymru a’r UE yn sgil Brexit. Roedd y drafodaeth a gafwyd ar y materion hyn yn gyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd y gwaith hwn. Mae’r gwaith o gynnwys cymdeithas sifil Cymru yn y broses o feithrin cysylltiadau rhwng y DU a’r UE yn elfen allweddol o ymchwiliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i lywodraethiant y DU a’r UE. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio cyflwyno adroddiad cyn cyfarfod nesaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Rhagfyr.

## Posibiliadau ehangach o ran cydweithio ar bolisïau gwyrdd ym maes diwydiant a masnach?

Roedd Bargen Werdd yr UE, ‘Fit for 50’ a’r Ddeddf Lleihau Chwyddiant yn yr Unol Daleithiau yn sail i drafodaethau ar gyfleoedd pellach i gydweithio ar bolisïau diwydiannol. Gwnaeth yr Arglwydd Johnson, Gweinidog Buddsoddi y DU, arddel cydweithio agos at ddibenion cynhyrchu cadwyni cyflenwi gwydn, yn enwedig mewn perthynas â datblygu technolegau newydd. Gwnaeth Mr Richard Szostak, Cyfarwyddwr Partneriaid Gorllewin Ewrop yn y Comisiwn Ewropeaidd, bwysleisio’r ffaith bod y Comisiwn yn canolbwyntio ar weithredu a gwireddu potensial y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llawn cyn canolbwyntio ar feysydd pellach o gydweithio y tu hwnt i'r cytundeb. Yn ogystal, ategodd neges yr Is-lywydd Šefčovič, sef y bydd ymwahanu pellach, o reidrwydd, yn golygu rhwystrau pellach i fasnach. Ategodd hefyd bryderon parhaus y Comisiwn ynglŷn â Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, gan nodi y bydd yr UE yn rhoi sylw manwl i unrhyw newidiadau deddfwriaethol a wneir. Gwrthododd y Senedd gydsynio i’r Bil, ond cafodd y Ddeddf ei phasio gan Senedd y DU heb gydsyniad.

Yn ein deunydd briffio ar gyfer dirprwyaeth y DU, gwnaethom bwysleisio bod rhwystrau technegol i fasnachu gyda’r UE yn parhau i fod yn bryder allweddol i lawer o fusnesau yng Nghymru.

## “Condemni’n ddiwyro y rhyfel ymosodol digymell ac anghyfiawn yn erbyn Wcráin”

Yn ei ail argymhelliad i'r Cyngor Partneriaeth, gwnaeth y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ailadrodd y ffaith ei fod yn condemnio’n ddiwyro y rhyfel yn Wcráin, y ffaith ei fod yn cefnogi Wcráin, a'r ffaith bod angen cydweithio rhwng yr UE a'r DU, yn enwedig mewn perthynas â pholisi cosbau effeithiol. Galwodd hefyd am ddwysáu’r ddeialog ynghylch y cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chydgysylltu yn y dyfodol ar faterion tramor a materion diogelwch cyffredin rhwng y DU a'r UE. Mae wedi gofyn i’r Cyngor Partneriaeth adrodd yn ôl ar ei argymhelliad cyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2023.

Mae’r Senedd wedi bod yn unfrydol wrth gefnogi cynigion sy’n condemnio’r rhyfel ac yn mynegi undod â phobl Wcráin.

# 2. Cyfranogiad y Senedd yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol

Mae gan ddeddfwrfeydd datganoledig lawer i'w gyfrannu at waith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol, fel y dengys yr adroddiad hwn. Mae’r cyfraniad cadarnhaol a wneir gan aelodau datganoledig at waith y grwpiau llai, a'r cyfle gwerthfawr i godi materion a sôn am arfer da yng Nghymru yn y grwpiau hynny, yn dangos yn glir fanteision ein cynnwys yn y trefniant hwn.

Gwnaeth ein hadroddiad cryno ar ail gyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bum argymhelliad ar gyfer datblygu’r berthynas rhwng y Senedd a’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ymhellach. Mae cynnydd wedi'i wneud ar sawl un o’r argymhellion hynny, ond byddwn yn parhau i weithio a phwyso am gynnydd pellach ar argymhellion eraill.

**Argymhelliad 1: Bod y gwelliannau a wnaed i gyfranogiad y deddfwrfeydd datganoledig yng nghyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bellach yn cael eu gwreiddio fel arfer gwaith cyffredin.**

**Argymhelliad 2: Bod ystyriaeth yn parhau i gael ei rhoi gan Swyddfa'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol i’r deddfwrfeydd datganoledig allu gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyfarfod Llawn ar feysydd cymhwysedd datganoledig.**

Mae cynnwys grwpiau llai ar yr agenda am yr eildro, a gwahodd aelodau datganoledig i gymryd rhan lawn yn y grwpiau hynny, yn dangos bod y datblygiadau cadarnhaol a wnaed yn yr ail gyfarfod yn cael eu hymgorffori. Rydym yn gwerthfawrogi’r cyfle y mae hyn yn ei roi o ran cyfrannu at y trafodaethau pwysig sy’n cael eu cynnal. Mae’r ffaith bod y ddau sefydliad yn cyhoeddi'r pwyntiau sy’n cael eu codi gan y grwpiau llai hefyd yn gam i'w groesawu'n fawr, gan ei fod yn hyrwyddo tryloywder a lefelau ymgysylltu â'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Rydym yn gwerthfawrogi’r amser cyfyngedig sydd ar gael i holl aelodau’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol gyfrannu yn ystod dadleuon yn y Cyfarfod Llawn. Serch hynny, rydym yn parhau i bwyso am amser i’r deddfwrfeydd datganoledig siarad mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar feysydd cymhwysedd datganoledig. Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn chwarae rôl hynod bwysig o ran cryfhau'r berthynas rhwng y DU a'r UE, a gall y deddfwrfeydd datganoledig wneud cyfraniad cadarnhaol at y broses o ddatblygu syniadau a rhannu arfer da.

Yn yr un modd, dim ond cryfhau gwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol y bydd cyfraniad cynrychiolwyr rhanbarthol Ewropeaidd a'r gymdeithas sifil ehangach yn ei wneud.

Gwnaethom ddarparu briff ysgrifenedig cyn y cyfarfod i ddirprwyaeth y DU, a hynny er mwyn codi materion sydd o bwys penodol i’r Senedd ac i Gymru. Rydym yn gobeithio bod y briff hwn wedi bod yn adnodd defnyddiol o ran llywio cyfraniadau dirprwyaeth y DU. Gwnaethom gyfarfod hefyd â’r Gwir Anrhydeddus Hilary Benn, un o’r Is-Gadeiryddion, ymlaen llaw. Byddwn yn parhau i geisio datblygu ein perthynas a’n gweithgarwch ymgysylltu ag aelodau o ddirprwyaeth y DU.

**Argymhelliad 3: Bod cynrychiolwyr y Senedd a phwyllgorau perthnasol y Senedd yn cydweithio i ddatblygu yr perthynas ag aelodau dirprwyaethau y DU a’r UE y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.**

**Argymhelliad 4: Bod adroddiadau ar ganlyniadau sesiynau’n cael eu rhannu fel mater o drefn a’u dwyn i sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd a Llywodraeth Cymru.**

Gwnaethom dynnu ein hadroddiad diwethaf at sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd a Phrif Weinidog Cymru. Rydym yn ddiolchgar am eu hymateb cadarnhaol ac rydym yn parhau i ymgysylltu â nhw.

Mae’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn y Senedd wedi gwahodd pwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU i gymryd rhan yn ei ymchwiliad i lywodraethiant y DU a’r UE a chyfarfu ag Aelodau o Senedd Ewrop sy’n rhan o ddirprwyaeth yr UE yn ystod ei ymweliad â Brwsel ym mis Medi.

Mae gan bwyllgorau eraill y Senedd gynlluniau i ymweld â Brwsel dros y 12 mis nesaf er mwyn trafod materion sy’n berthnasol i waith y Cynulliad Partneriaeth

Seneddol. Byddant yn parhau i geisio meithrin perthynas â chymheiriaid yn eu meysydd priodol.

Rydym yn nodi'r galwadau penodol gan y Comisiwn Ewropeaidd parthed codi proffil gwleidyddol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'i strwythurau llywodraethu, a byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o waith pwysig y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

**Argymhelliad 5: Bod mecanweithiau'n cael eu datblygu i ymgysylltu â chymdeithas sifil Cymru ar waith Aelodau o'r Senedd yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol – a hynny cyn y cyfarfodydd ffurfiol ac ar ôl y cyfarfodydd i roi adborth ar y trafodion.**

Cawsom gyfle i ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid cyn y trydydd cyfarfod, a gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein deunydd briffio ar gyfer dirprwyaeth y DU a'r cyfraniadau yn y grwpiau llai. Rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid hynny a oedd yn gallu llywio ein gwaith ar fyr rybudd. Un her allweddol wrth geisio ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid cyn cyfarfodydd yw'r ffaith nad yw'r agendâu yn dod i law tan tuag wythnos cyn y cyfarfod dan sylw, fan gynharaf.

Er bod hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid ar eitemau penodol ar yr agenda, mae cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion cyffredinol sydd o bwys iddynt cyn cyfarfodydd ac i geisio dylanwadu ar gynnwys yr agenda. Y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol, mae cyfleoedd hefyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r dirprwyaethau ynghylch unrhyw faterion sy'n cael eu nodi drwy waith ymgysylltu ffurfiol â rhanddeiliaid.

Yn ogystal, byddwn yn chwilio am gyfleoedd pellach i gydlynu gwaith ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol â'r gwaith a wneir gan Aelodau o'r Senedd sy'n gwasanaethu ar Grŵp Cyswllt y DU ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau i geisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i godi materion sydd o bwys i Gymru.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog

18 Hydref 2023

Trydydd cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Annwyl Mark,

Fel y byddwch yn gwybod, roedd Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE (y Cytundeb) yn darparu ar gyfer sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn goruchwylio gweithrediad y Cytundeb ac unrhyw gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Gwnaethom gynrychioli'r Senedd yn nhrydydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar 3-4 Gorffennaf. Yn ystod y cyfarfod hwn, cynhaliodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol drafodaethau pwysig ar faterion megis Protocol Gogledd Iwerddon a Fframwaith Windsor, llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wasanaethau Ariannol, sicrhau cyflenwadau ynni, cydweithredu ar yr hinsawdd, mynediad y DU at raglen ymchwil Horizon, gwella symudedd dinasyddion rhwng y DU a'r UE, a chynnwys lleisiau dinasyddion trwy gydweithrediad cymdeithas sifil.

Gwnaethpwyd nifer o argymhellion i Gyngor Partneriaeth y Cytundeb yn ystod y sesiwn hon, gan gynnwys:

- Ailadrodd argymhelliad y grŵp trafod ar symudedd, a wnaed yn flaenorol i'r Cytundeb, y dylai'r UE a'r DU negodi cytundeb cynhwysfawr i ganiatáu i artistiaid deithio a gweithio yn yr UE a'r DU;

- A’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn mynegi unwaith eto’r ffaith ei fod yn condemnio’n ddiwyro y rhyfel yn Wcráin, y ffaith ei fod yn cefnogi Wcráin, a'r ffaith bod angen cydweithio rhwng yr UE a'r DU, yn enwedig mewn perthynas â pholisi cosbau effeithiol. Galwodd hefyd am 'ddwysâd yn y deialog' ar lwybrau ar gyfer cydweithredu a chydgysylltu yn y dyfodol ar faterion tramor a diogelwch yn gyffredinol rhwng y DU a'r UE. Mae wedi gofyn i’r Cyngor Partneriaeth adrodd yn ôl ar ei argymhelliad cyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2023.

Ysgrifennwn atoch i dynnu eich sylw at ein hadroddiad byr ar ganlyniadau'r cyfarfod. Gobeithiwn y bydd y materion a drafodwyd o ddiddordeb i chi a byddwn yn parhau i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am waith y Senedd gyda’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac unrhyw feysydd a drafodwyd sydd o bwysigrwydd arbennig i Gymru.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Luke Fletcher

Luke Fletcher AS
Aelod
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS
Chair,
Legislation, Justice and Constitution Committee

SeneddLJC@senedd.wales

16 October 2023

Dear Huw

I am writing in response to your letter to the First Minister of 29 September, concerning the UK-Norway-Liechtenstein-Iceland Convention on Social Security Coordination ("the Convention"). The letter has been passed to me for response, as discussions with the UK Government concerning the content of devolved aspects of international reciprocal healthcare agreements, and the impacts and implementation of such agreements, sit within my portfolio.

My officials meet monthly with UK Government officials and officials from the other Devolved Governments to liaise on reciprocal healthcare matters. These meetings include discussion of the development and impact of new international healthcare agreements, as required by the Intergovernmental Memorandum of Understanding in Respect of the Consultation Process for International Healthcare Agreements and their Implementation Regulations.

Since EU exit, the UK Government has been negotiating new social security agreements with Switzerland, Norway, Iceland and Lichtenstein, the aim of the UK Government being to place all these countries on the same basis as the Trade and Cooperation Agreement ("TCA"), which re-instates the majority of the reciprocal health arrangements that prior to EU Exit were provided for by the various EU reciprocal healthcare provisions. The UK-Switzerland Convention on Social Security Coordination came into force on 1 November 2021.

The UK Government's broad intent regarding the reciprocal healthcare provisions within the Convention has thus been clear and the Welsh Government has been consulted and commented on the content of both this agreement and the previous, similar UK-Switzerland Convention. The UK Government has provided updates on progress on the negotiation of the Convention by UK Government, including assessments of potential impacts and updates on timings.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Although signed by all parties, the Convention is not yet in force. UK Government officials expect the Convention will be brought into force before the end of 2023 with regard to Iceland and Liechtenstein, and in early 2024 with regard to Norway, once the necessary procedures have been undertaken by their relevant national bodies.

Ahead of the coming into force date the Welsh Government will amend the National Health Service (Charges to Overseas Visitors) Regulations 1989 ("the Charging Regulations") to add Iceland and Liechtenstein to the countries covered by those Regulations. Norway is already listed in the Charging Regulations as there is a pre-existing limited bi-lateral agreement with the UK (the 1991 Convention on Social Security between the Government of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and the Government of the Kingdom of Norway and subsequent supplementary protocol). The amending regulations will be accompanied by an impact assessment including the expected impact to the NHS of the Convention.

All relevant Welsh Government guidance documents and NHS websites will also be updated to reflect the new arrangements with the three countries. Welsh Government officials have informed the Local Health Boards of the signing and provisions of the Convention and will further update once the coming into force date is known.

I trust this answers your questions.

This letter has been copied to Russell George MS, the Chair of the Health and Social Care Committee.

Yours sincerely,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

29 Medi 2023

Annwyl Mark,

Fel y byddwch yn gwybod, mae’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 11 Medi 2023, buom yn ystyried Confensiwn y DU-Norwy-Liechtenstein-Gwlad yr Iâ ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cydgysylltu nawdd cymdeithasol yn barhaus rhwng y DU (ac eithrio Gibraltar a Dibynwledydd y Goron) a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a/neu Norwy ar ôl Brexit.

Er bod negodi cytundebau gofal iechyd cilyddol yn fater a gedwir yn ôl, mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i weithredu rhai agweddau ar y cytundeb hwn, gan gynnwys adennill costau ymwelwyr tramor. Ar y sail honno, deallwn fod Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu ac ymgynghori â swyddogion iechyd o’r llywodraethau datganoledig, wedi rhannu testun cyfreithiol drafft, ac wedi cysylltu mewn perthynas â goblygiadau iechyd.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech darparu rhagor o wybodaeth ynghylch eich ymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cytundeb hwn, yn ogystal â'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y cytundeb yn cael ei weithredu mewn meysydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 19 Hydref 2023.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Bennett Institute for Public Policy Cambridge

INSTITUTE FOR GOVERNMENT

**Bennett Institute for Public Policy**
